

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Rhagfyr 3ydd, 2013

Presennol: Huw Antur (Cadeirydd), Dewi Jones (is gadeirydd), Alan Jones Evans, Cynghorydd Gwynedd, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

- 1225 Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Heledd Jones.
- 1226 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
- 1227 Datganodd Beryl Hughes Griffiths buddiant ym mater yr Eglwys.
- 1228 Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod Tachwedd 5ed 2013.
- 1229 Nid oedd materion yn codi o gofnodion Tachwedd nad oedd eisoes ar yr Agenda.
- 1230 Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir a soniodd yn benodol am y trafodaethau rhwng Cyngor Gwynedd a chwmnïau morgais i gefnogi hunan-adeiladu gan bobl ifanc. Anogodd unrhyw un sydd wedi cael trafferthion i gael morgais dan y fath amgylchiadau yn y gorffennol i gysylltu gydag ef neu'r Cyngor fel bod tystiolaeth o'r anawsterau ar gael ar gyfer y trafodaethau.

Soniodd y bydd Cyngor Gwynedd yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r ymgyrch i brynu ynni ar y cyd, sef trydan, nwy ac – yn ddiweddarach – olew. Pecyn yw hwn lle bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle i bobl gofrestru eu diddordeb, er mwyn gallu negodi prisiau is gan y cyflenwyr ynni. Y mwyaf o nifer a wnaiff gofrestru, yr isaf fydd y pris. Bydd y cyfnod cofrestru yn agor yn Ionawr am gyfnod o 6 wythnos.

Soniodd hefyd am y cynllun Eyr Eira. Cynllun yw hwn sy'n annog cymunedau i gymryd cyfrifoldeb dros ofal a lles yn eu bro eu hunain adeg rhew ac eira. Mae Llanuwchllyn wedi cael y cyfle i fod yn rhan o'r cynllun peilot eleni, a bydd offer yn cael ei ddarparu am ddim. Mae'r Cynghorydd wedi sicrhau gwasanaeth Arwel Lloyd Jones fel Cydlynnydd yr Eyr Eira, ac mae yntau wedi derbyn lluo o addewidion gan bobl sydd yn barod i wirfoddoli.

- 1231 Derbyniwyd adroddiad am y cyfarfod gyda Swyddogion Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar 20/11/13. Amlinellwyd y camau cryf a phendant a gymerir os ydyw tenantiaid yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o dderbyn tystiolaeth gadarn a buan. Mae Arwel Lloyd Jones yn barod i siarad dros drigolion Maesypandy os oes cwynion yn dod i'w sylw ef.

Mae Holiadur wedi ei ddsbarthu i ganfod anghenion cartrefi'r ardal. Mae nifer o'r fflatiau yn rhydd ac anogir pobl i ymgeisio amdanynt (gellir cael ffurflen oddi wrth Gymdeithas Tai Clwyd yn Y Bala neu oddi wrth unrhyw un o'r Cyngor).

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

Cynhelir diwrnod agored yn un o'r fflatiau yn fuan ac mae croeso i unrhyw un ymweld.

Gofynnwyd i'r Clerc drafod y syniad o gynnwys lluniau mewnol o'r fflatiau ar bosteri, a hefyd i drafod y posibilrwydd o newid un bloc o bedwar fflat i fod yn ddau dŷ.

Gweithredu: Clerc

1231 Materion Eiddo'r Cyngor

- Derbyniwyd ffeil gyda manylion a lluniau asedau'r Cyngor a diolchwyd i Swyddogion y Cyngor Cymuned am baratoi'r ffeil. Cytunwyd i gynnwys mynwent yr Eglwys a'r wal o gwmpas, yn y ffeil, mainc y Groesffordd, mainc Garth Bach a Maen Llew. Cynigiodd Rhodri Jones ymdrin â'r eiddew yn lloches bws Y Lôn, a chytunodd y Cadeirydd i archwilio cyflwr lloches bws Tŷ'n Ddôl. **Gweithredu: Swyddogion; Rhodri Jones, Huw Antur**
- Mae lloches bws newydd wedi ei godi ar gyfer plant ysgol yn y Llan, a diolchwyd i Wil P Roberts, Gwynant Roberts ac Emyr Puw am ddod i gynorthwyo Huw P Roberts ac Alan Jones Evans i baratoi'r safle. Diolchwyd hefyd i Barry Hoyle am ei hynawsedd gyda pharatoi'r gwrych ar gyfer y safle.

Gweithredu: Clerc

- Toiledau - er nad ydyw'r mater wedi ei drafod gan y Cyngor Cymuned, ymddengys fod swyddogion o Gyngor Gwynedd wedi cyfarwyddo cyfreithwyr i weithredu ar ein rhan. Cytunwyd i'r Clerc anfon at Gyngor Gwynedd yn cwestiynu'r drefn hon o weithredu. Cytunwyd y dylid llunio memorandwm o ddealltwriaeth rhwng Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf a'r Cyngor Cymuned ynglŷn â chyfrifoldebau'r Cyngor dros y toiledau. **Gweithredu: Clerc a'r Cadeirydd**

1232 Materion ariannol

- Derbyniwyd cofnod o gyfarfod yr Is Bwyllgor Cyllid ac adroddiad y Swyddog Ariannol am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf. Cytunwyd gydag argymhellion yr is-bwyllgor, sef:
 - Gwario ar ffenestri i'r toiledau yn y flwyddyn ariannol hon
 - Paentio'r toiledau yn y flwyddyn ariannol nesaf.
 - Lleihau'r swm sy'n cael ei neilltuo i ARIAN WRTH GEFN
 - Cadw'r Praesept yr un fath â llynedd
- Cytunwyd i dalu biliau'r mis (trethi dŵr y toiledau, lloches bws, ffioedd archwilio).
- Rhoddyd ystyriaeth bellach i leihau'r risg ariannol i'r Cyngor Cymuned yng nghyfrifon y Fynwent a chytunwyd i gadw at y drefn bresennol.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

- iv Cytunwyd i roi mater Swydd-ddisgrifiad o rôl Clerc y Fynwent ar agenda'r mis nesaf.
Gweithredu: Swyddog Ariannol, Cadeirydd

1233 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned

- i. Cafwyd sicrwydd na fydd y cynllun ynni dŵr arfaethedig yn amharu ar lwybr Carmel.
- ii. Mae'r Sbwriel a oedd wedi ei ollwng yng Nghynllwyd wedi ei glirio erbyn hyn.
- iii. Llwybr Tegid - cytunwyd i gydweithio pe byddai cais yn dod i'r contractwyr ddefnyddio maes parcio'r fynwent, a phe byddid yn ymestyn y llwybr ychydig i mewn i faes parcio'r fynwent.

- 1234 **Partneriaeth Penllyn:** adroddodd y cynrychiolwyr y bydd Canolfan Henblas ar agor i drafod cynlluniau yn ystod y Noson Siopa Hwyr - mae hwn yn rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Mari Jones Williams, y swyddog marchnata. Mae'r gwaith tendro yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Diolchodd y Cyngorydd Alan Jones Evans i'r cynrychiolwyr a anerchodd Fforwm Meirionnydd yn ddiweddar.

1235 **Gohebiaeth:**

1. **Parc Cenedlaethol Eryri:**

- i Cadarnhawyd cymeradwyo Cais NP5/71/447 Cynllun Trydan Dŵr (Coed Wenallt, Dolhendre)
- ii Apêl Ty'n Ffridd – Cadarnhawyd nad oes gan y Cyngor sylwadau pellach ar y mater hwn
- iii Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd Cais ôl weithredol i bolyn camera cylch cyfyng yn Ysgol O M Edwards.

2 **Gwynedd:**

- i. Derbyniwyd neges gan Dylan Wynn Jones yn dweud ei fod yn cysylltu gyda'r ysgol gynradd ac yn trefnu marcio'r ffordd mewn ymgais i leihau risg a all ddeillio o oryrru yn y pentref.
- ii. Nodwyd gwybodaeth am seminarau safleoedd tai posib o dan gynllun datblygu lleol Gwynedd/ Môn
- iii. Cyfarwyddwyd y Clerc i gwblhau'r ffurflen gais i sefydlu gwefan i'r Cyngor
Gweithredu: Clerc
- iv. Nodwyd gwahoddiad i gyflwyniad prynu'n lleol ar 9/12/13

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

3 Heddlu:

- i. Mewn ymateb i gais y Cyngor am wasanaeth "Gan Bwyll" ar y Tyrpeg, dywedwyd y bydd gofyn asesu a oes angen y gwasanaeth yn y lle cyntaf trwy gymryd mesuriadau o gyfartaledd cyflymder.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth fod ymchwilio'n parhau i'r achos diweddar o dorri mewn i'r Eglwys.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth parthed amnest cyllyll.

4 Llywodraeth Cymru:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghoriad ar newidiadau i'r Archwiliad Ariannol Blynnyddol

5 Un Llais Cymru:

- i. Penderfynwyd peidio â phleidleisio ar gyfer cynrychiolydd Un Llais Cymru i fwrdd Betsi Cadwaladr.

6 Eraill:

- i. Derbyniwyd Cylchgronau am Chwarae

1236 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 7/1/14 am 7.30 yn y neuadd

Amser gorffen 9.30pm